

Tasg 2

(Craidd, sbardun 3)

1. Oherwydd eu bod yn bwyntiau bwled mae'r brawddegau yn dechrau gyda berfenw e.e. pasio, tynnu. Trowch hwy yn frawddegau llawn gan geisio cael trefn gwahanol. Mae'r cyntaf wedi ei wneud i chi.

i) Pasio'r plentyn deirgwaith o dan fol mul yn gwella'r pas

I wella'r pas gellwch basio'r plentyn o dan fol mul deirgwaith

ii) Tynnu dant twrch daear byw a'i roi yn y geg yn gwella'r ddannod

iii) Rhwymo'r pen gyda rhaff sydd newydd grogi person yn gwella cur pen

iv) Gwneud pipi mewn bedd agored yn eich cadw rhag gwlychu'r gwely yn y nos

v) Cario llygoden fach farw yn eich poced yn cadw crydcymalau draw

vi) Rhoi eich pen yng nghorff buwch sydd newydd farw ond yn dal yn gynnes ac anadlu'n ddwfn yn cael gwared â'r diciâu
